TEITL: Mae Kristin Luke yn siarad am *Y Llyfrgell Ffeministaidd Symudol: Gair, Gweithred, Cysylltiad* – yr arddangosfa ym MOSTYN, Cymru DU.

SAESNEG GYDAG IS-DEITLAU CYMRAEG

TRAWSGRIFIAD:

Fy enw i yw Kristin Luke ac mae'r project yma, o'r enw "Gair, Gweithred, Cysylltiad", yn gyntaf oll mae'n gydweithrediad enfawr rhwng grŵp o artistiaid a chyhoeddwyr ac actifyddion hynod o eang, i ddod â'r casgliad hwn at ei gilydd ar y cyd, sydd yn ceisio i dal ymdeimlad o le mae ffeministiaeth, ac actifiaeth, a chyhoeddi yn croestorri fel y maent yn perthnasu â Chymru. Ac mae fy nghydweithiwr Minna Haukka a minnau, rydym yn cynnal prosiect parhaus o'r enw'r Llyfrgell Ffeministaidd Symudol sydd wedi dod allan ohonom ni'n cyfarfod ar adeg pan oedd Minna yn artist preswyl yn y Llyfrgell Ffeministaidd yn Llundain, sy'n gasgliad anhygoel o siwrnalau, cyhoeddiadau, cyfnodolion, gweithiau celf a phob math o lenyddiaeth o bob cwr o'r byd.

Rydym yn mynd â'r casgliad ar daith allan o'r Llyfrgell Ffeministaidd mewn fan. Rhan o natur y prosiect hwnnw yw bod y casgliad yn ymatebol i bob lle rydyn ni'n stopio. Rydyn ni'n ystyried creu'r math hwn o blatfform symudol, gwahoddiad i bobl ddod i gael rhyw fath o fynediad yn syth i ddeunydd radical a allai fod yn anhygyrch fel arall. Felly dyna'r dull a gymerwyd gennym ar gyfer "Gair, Gweithred, Cysylltiad" i ymateb i beth y mae'r themâu hynny o ffeministiaeth, actifiaeth a chyhoeddi yn ei olygu i Gymru.

O'r cychwyn, roedd yn gydnabyddiaeth mewn gwirionedd nad yw hyn yn ymwneud â fy llais i a llais Minna wrth yn unig benderfynu beth ddylai'r casgliad hwn fod, oherwydd o ran math o agwedd groestoriadol tuag at ffeministiaeth, mae'n rhaid bod yna'r gydnabyddiaeth hon bod yna nifer o safbwyntiau o bobl a gall siarad o sawl persbectif am beth y mae ffeministiaeth yn ei olygu heddiw o ran, nid yn unig rhywedd, ond hil, a dosbarth, a niwro-amrywiaeth, rhywioldeb. Felly dyna mewn gwirionedd ... Roeddem yn meddwl amdanom ein hunain Minna, a minnau, a Juliette fel math o gynullyddion grŵp anhygoel o bobl.

Felly mae'r wal y tu nol i ni yw'r Llyfrgell Ffeministaidd a chyhoeddiadau gwreiddiol o'r 30au hyd at y 90au ar y wal yma. Ac mae yna hefyd bresenoldeb o'r Canolfan Hanes a Chelf Butetown, ynghyd a Patriarchaeth wedi cyfrannu ychydig o weithiau yma. Mae yna siwrnalau iaith Gymraeg hefyd fel Rhiannon ac wedyn ar y wal yma mae yna gyfraniad gan LUMIN.

Felly mae Sadia Pineda Hameed a Beau W Beakhouse wedi gwneud y posteri yma sydd i fod i gael eu cymryd, fod i gael eu dwyn o'r sioe. Ei enw yw Dwyn Llyfrau Llyfrgelloedd Newydd. Daeth allan o'r fath o sgwrs am y darlun ehangach gydag archifau a llyfrgelloedd eu hunain, a sut mewn rhai achosion yn feddwl am y wybodaeth ryddhaol o lyfrgelloedd a llefydd nad yw gwybodaeth o reidrwydd yn hygyrch yn ddemocrataidd. Un o'r ffyrdd mwyaf radical o ryddhau'r wybodaeth honno yw dwyn.

Wrth yml LUMIN yw Gwaith Rebecca Jagoe. Mae'r gwaith yn fath o gyfeirio at lawysgrifau canoloesol a meddwl sut y gall testun a chyhoeddi amlygu wrth frodio.

Maent hefyd yn ceisio mynegi'r math hwn o gysylltiad o fath o hanes meddygaeth, hanes cyrff menywod neu'r syniad o'r corff benywaidd a'i threuliant, ac anhwylder bwyta, a sut mae pob un o'r rheini'n creu'r math hwn o ddiffiniad cyfoes o beth yw'r corff benywaidd.

Mae'r gweithiau ar y wal bellaf yn bosteri gan Monica Sjöö a oedd yn actifydd hynod o gynhyrchiol, ac yn arlunydd, ac yn awdur. Roedd ganddi dipyn o bresenoldeb yng Nghymru a hefyd threuliodd lawer o amser ar gomiwnau Cymru a chreodd math o bosteri i fodoli mewn nifer o gyd-destunau gwahanol. Felly, p'un a gawsant eu hongian ar y wal fel gweithiau celf neu eu defnyddio mewn protestiadau; mae ganddyn nhw'r hyblygrwydd hwn o'u cwmpas.

Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda rhai gweithredwyr ifanc Casey Duijndam a Robyn Dewhurst y bu eu profiadau cyntaf o drefnu wedi cymryd y ffurf o dair protest wahanol Black Lives Matter yn 2020 ar draws Gogledd Cymru. Felly mae eu presenoldeb yn y sioe wir yn ceisio meddwl am sut mae'r genhedlaeth nesaf hon yn cael ei gwleidyddoli ac yn fath o ddarganfod eu llais. Ac rwy'n credu bod dal profiadau Casey a Robyn o hyn sydd mor ddiweddar ac mor garedig yn y broses o bron â diffinio pwy ydyn nhw fel gweithredwyr. Mae'n gyfraniad braf iawn.

Wrth feddwl o gwmpas sut i wneud archif, un ffeministaidd, yn ei holl ffurfiau wedi'i ddylanwadu'n wirioneddol gan Jo Spence yn ogystal â'r Llyfrgell Ffeministaidd ei hun y mae Minna yn gysylltiedig â hi. Hefyd roedd Kathy Acker yn ddylanwad mawr hefyd, ac yn fath o feddwl am sut roedd pob un o'r tair a'u dulliau o wneud mewn gwirionedd, agor archifau a ddim defnyddio math o ffurfiau traddodiadol ar gategoreiddio, cronoleg, a diffyg mynediad fel rhoi pethau mewn cypyrddau gwydr. Peidio â gwneud unrhyw fath hwnnw o weithiau, i wneud yr archif yn fwy an-hierarchaidd.